



Cofnodion Cyngor yr Undeb
Dydd Llun 26 Chwefror 6pm.
Prif Ystafell Undeb y Myfyrwyr

Agenda	Eitem	Nodiadau / Deilliant
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	Croeso	Croesawodd Cadeirydd yr Undeb, James, bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Cyfanswm y bobl a fynychodd y cyfarfod hwn: 79
	Ymddiheuriadau am absenoldeb	Diolch i'r rheiny a roddodd ymddiheuriadau trwy'r ddolen RSVP.
	Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod blaenorol	Nid oedd cworwm i'r cyfarfod blaenorol, felly does dim cofnodion.
2. Sesiwn y Streiciau	Bydd Joe Ironside/John Gough (UCU) a Bec Davies (Prifysgol Aberystwyth) yn cyflwyno'r diweddaraf ar y streiciau a bydd sesiwn holi ac ateb i ddilyn	<p>Cwestiynau ac Atebion:</p> <p>C: A fydd rhaid i ni ddysgu'r pynciau a gollwyd oherwydd y streiciau ac a fydd y pynciau'n cael eu cynnwys mewn arholiadau? A gawn ni amgylchiadau arbennig?</p> <p>A: Ni all unrhyw asesiad neu arholiad gynnwys unrhyw beth sydd heb ei addysgu.</p> <p>C: A fyddwn ni'n cael iawndal am y darlithoedd a gafodd eu canslo? Dydyn ni ddim wedi talu am gyflwyniadau PowerPoint ar y Bwrdd Du.</p> <p>A: Cytuno, nid y profiad llawn o addysgu mo hwn. Rydyn ni'n edrych ar sut mae modd i ni leddfu rhai o'r pethau rydych chi wedi eu colli. Y disgwyl yw na fyddwch yn y sefyllfa honno. Dwi ddim yn rhagweld y bydd angen ad-daliadau.</p> <p>C: Sut bydd hyn yn effeithio ar gofnod presenoldeb myfyrwyr rhyngwladol?</p> <p>A: Rydyn ni'n gweithio gyda'r swyddfa ryngwladol i sicrhau na fydd hyn yn effeithio ar eich cofnod presenoldeb.</p> <p>C: Ydych chi'n barod i wella cyfraniadau'r cyflogwr at bensiynau?</p> <p>A: Ein hincwm yw ffioedd myfyrwyr, pe baem yn cynyddu'r USS (rydyn ni'n talu 18%), byddai'n ychwanegu costau sylweddol ac yn arwain at glustnodi'r arian hwn oddi wrth rolau'r staff a myfyrwyr.</p>



		<p>C: Beth ddylwn i ei wneud os nad chaf atebion i e-byst gan ddarlithwyr sydd ar streic?</p> <p>A: Rhowch wybod i ni trwy Rho Wybod Nawr! Rydyn ni'n gweithio gyda'r adrannau. Rhowch wybod i ni os bydd problem, ond dwi'n ymwybodol bod nifer o estyniadau yn eu lle.</p> <p>C: A fydd hyn yn effeithio ar barhad y darlithoedd?</p> <p>A: Mae trefn i'r darlithoedd, felly ddylech chi ddim colli unrhyw gynnwys.</p> <p>Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r streiciau, sut mae'n effeithio arnoch chi neu unrhyw adborth neu ymholiadau eraill, cysylltwch ag suacademic@aber.ac.uk</p>
3. Adroddiad y Swyddogion	Bydd y Swyddogion yn trafod eu gweithgareddau ac mae hwn yn gyfle i chi gael gwybod am yr hyn maen nhw wedi ei wneud ar eich rhan.	Caiff adroddiadau gan swyddogion unigol nawr eu cyflwyno yn ystod Parthau. Cyflwynodd Swyddog Datblygu'r Undeb (SDU) adroddiad ar ran yr holl SLIA, ac mae i'w weld ar y wefan.
4. Cyngor - Eich Syniadau	Byddwn yn trafod ac yna'n pleidleisio ar y Syniadau sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Cyngor.	
1	Awn ni ar streic gyda'n gilydd (Ammaara Nalban)	
	Datganiad ar gyfer Syniad Brys	<p>Y rheswm dros gyflwyno hwn fel syniad brys yw bod yr Undeb wedi rhyddhau ei ddatganiad ar y streiciau ar 14 Chwefror, 2 ddiwrnod ar ôl dyddiad cau cyflwyno Syniadau ar gyfer y cyfarfod. Mae'r Syniad yn gofyn am fwy o gefnogaeth a datganiad cryfach gan yr Undeb, felly ni fyddai modd ei gyflwyno cyn i'r Undeb gyflwyno ei ddatganiad.</p> <p>James: Dwi wedi derbyn y Syniad hwn ar yr agenda, ond caiff ei gynnwys fel yr eitem olaf ar y rhestr syniadau i'w trafod a'u pleidleisio. Mae hyn oherwydd bod y syniadau eraill wedi'u cyflwyno mewn cyfarfodydd blaenorol ac rydym am sicrhau eu bod yn cael eu trafod a'u pleidleisio o fewn terfyn amser y cyfarfod hwn. (Gweler 1 wedi'i barhau ar ddiwedd y cofnodion hyn)</p>
2	Gofal ar gyfer Troseddeg, Peidiwch â'n hallgau ni (Rhiannon Perrett, ildiyd i Lizzie Rocher)	
	Pleidlais	PASIODD
3	Dwi am fynd i'r gampfa ar benwythnosau (Bruce Wight)	
	Cwestiynau	<p>C: Ydych chi wedi gwerthuso'r gost ac o le y daw?</p> <p>A: Byddai'r cynnydd yn y defnydd o'r lle yn ystod yr amseroedd hyn, 'talw am bob sesiwn' yn talu'r costau</p>



		<p>hyn.</p> <p>C: Ond ydych chi wedi ystyried bod y Ganolfan Chwaraeon yn darparu aelodaeth am ddim i fyfyrwyr sy'n byw yn llety'r brifysgol [ni fyddai'n cynyddu incwm y ganolfan]?</p> <p>A: Byddai rhaid i'r Brifysgol adolygu ei chyllideb.</p> <p>C: Yn ystod yr wythnos mae 8 o bobl yn glanhau, a dim ond 3 ar y penwythnos. Sut bydd hyn yn effeithio arnyn nhw?</p> <p>A: Byddai'r oriau glanhau yn gyson dros y saith diwrnod.</p> <p>C: Mae'r oriau agor yn edrych yn iawn i mi. Beth am ddefnyddio'r arian mewn ffordd well?</p> <p>A: Y syniad yw helpu clybiau chwaraeon trwy ddarparu mwy o opsiynau o ran amser ar gyfer ymarfer.</p> <p>C: Faint o ddiddordeb ydych chi wedi'i gael yn hyn?</p> <p>A: Dwi wedi cael negeseuon e-bost rheolaidd ers dechrau'r flwyddyn, dyma'r hyn dwi wedi'i gynnig.</p>
	<p>Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)</p>	<p>Pwyntiau a godwyd yn erbyn y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none">• Corff iach, meddwl iach, fy mhroblem i yw bod modd mynd am dro neu gicio pêl. Mae problemau pwysicach yn bodoli.• Er bod nifer y bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau wedi cynyddu, mae'r aelodaeth am ddim ar gyfer y myfyrwyr sy'n byw yn llety'r brifysgol yn golygu nad yw hyn yn creu digon o arian.• Pe baen nhw'n agor mwy, byddai modd codi mwy o arian. <p>Pwyntiau a godwyd o blaid y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none">• Jess (Swyddog Cyfleoedd): mae'r ganolfan chwaraeon rhyw fymryn i ffwrdd o fod ar ei cholled, er bod nifer y myfyrwyr sydd ganddynt bob dydd wedi treblu. Mae'n debyg y bydd hyn cymryd 3 blynedd i'w gyflawni ond gallwn ei gyflwyno nawr.



		<ul style="list-style-type: none"> Os caiff yr oriau eu cynyddu, bydd mwy o glybiau'n defnyddio'r cyfleusterau a bydd pawb ar eu hennill. Dwi'n cefnogi'r Syniad hwn gan fod angen y cyfleusterau hynny ar dimau BUCS, gyda chymaint o amser â phosib. Mae'n llawer gwell gennym ymarfer mewn campfa nag ar lan y môr.
	Pleidlais	PASIODD
4	Toiledau i bawb (Sam Smales)	
	Cwestiynau	<p>C: Pe baen ni'n cael gwared ar doiledau penodol ar gyfer y rhywedd, beth am gael gwared ar wrinalau?</p> <p>A: Mae'n annhebygol y bydd modd i'r Brifysgol fforddio eu newid nhw i gyd, byddwn ni'n lobïo dros gael ciwbiclau mewn rhai newydd.</p> <p>C: Allwch chi gadarnhau ai ar gyfer adeiladau newydd fydd hyn?</p> <p>A: Pob adeilad newydd, ond byddwn ni hefyd yn lobïo i ddiweddarau'r adeiladau presennol gan gofio'r angen i gadw o leiaf un set o doiledau ar gyfer y ddau rywedd (rhesymau crefyddol posibl) a thoiledau hygrych yn eu lle.</p>
	Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)	<p>Pwyntiau a godwyd yn erbyn y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dwi'n hapus gyda'n toiledau rhywedd niwtral ond peidiwch â chael gwared ar wrinals <p>Pwyntiau a godwyd o blaid y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dwi'n rhyngrywedd a dwi fwyaf cyfforddus yn y tai bach yn yr adeilad hwn (rhywedd niwtral). Mae gwybod nad oes rhaid i mi fynd i mewn i dai bach y menywod a bod pobl yn cymryd yn ganiataol mai menyw ydw i, yn gwneud gwahaniaeth enfawr.
	Pleidlais	PASIODD
5	Polisi Dwyieithog (Gwion Llwyd)	
	Pleidlais	PASIODD
6	Dydyn ni ddim yn fodlon goddef anghyfleuster BUCS! (Jess Williams)	



Cwestiynau:

C: A yw hyn ar gyfer yr holl ddiwrnod?

A: Ydy

C: Oes problemau o ran amserlenni ac ati?

A: Dylent wneud ymdrech ychwanegol

C: Mae mwyafrif gweithdai llesiant y myfyrwyr ar brynhawn Mercher. A fyddai modd i ni geisio symud y rhain hefyd?

A: Gallwn ni ei grybwyll.

C: Beth yw BUCS?

A: Chwaraeon prifysgolion a cholegau Prydain, yr holl brifysgolion! Mae'n beth mawr i'w roi ar CV. Mae'r tîm tenis bwrdd wedi cystadlu ar lefel genedlaethol ac mae'n bosib mai nhw fydd y gorau ym Mhrydain!

C: Os ydych chi'n bwriadu neilltuo amser allan o'r diwrnod, a fyddai diwrnodau eraill yn cael eu hymestyn neu'n cyd-fynd â'r amserlen bresennol?

A: Rydyn ni'n deall y bydd problemau, ond byddwn ni'n gweithio gyda'r brifysgol i sicrhau'r canlyniad gorau.

C: Mae'r brifysgol wedi rhyddhau prynhawn Mercher ar gyfer BUCS ac ati, ond mae trafodaethau a sesiynau cyflogadwyedd yn aml ar brynhawn Mercher. A ddylai hyn fod ar gyfer chwaraeon yn unig?

A: Y polisi hwn yw dileu cyswllt asesu/gorfodol, ond gallwn asesu yn y dyfodol p'un a ddylid cyfyngu'r holl weithgareddau ar ddydd Mercher.

C: Dydw i ddim yn gyfarwydd â BUCS, a fydd modd eu cynnal ar y penwythnos?

A: Sefydlwyd BUCS amser maith iawn yn ôl ac mae'r gemau bob amser ar ddydd Mercher ers hynny.

C: A fyddai hyn yn gyfan gwbl, neu un adran ar ôl y llall?

A: Does gen i ddim ateb i hwnnw. Cawn weld sut bydd y brifysgol yn ymateb a'r hyn y gallant ei gynnig.



		<p>C: Ydych chi wedi cynnal ymgynghoriad ar hyn?</p> <p>A: Mae myfyrwyr wedi dod i siarad â mi am y broblem hon ac mae croeso iddynt barhau.</p> <p>C: Mae'r rhethreg yn ddryslyd. A fyddai hyn yn newid amgylchiadau arbennig i gynnwys BUCS?</p> <p>A: Bydd modd i mi gynnwys hynny yn y syniadau a fydd yn mynd at y brifysgol</p>
	<p>Estynnwyd gwahoddiad i siaradwyr eraill (o blaid ac yn erbyn)</p>	<p>Pwyntiau a godwyd yn erbyn y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none">• Dwi'n poeni y bydd colli 4 awr yn broblem, a bydd symud yr addysgu ar gampws Llanbadarn i Benglais yn lleihau'r manau addysgu hefyd.• Dwi'n poeni y byddai hwn yn ddiwrnod penodol ar gyfer BUCS yn unig ac na fydd yn dwyn budd i fyfyrwyr sydd ddim yn cymryd rhan yn BUCS• Mae gwahaniaeth rhwng asesiadau/darlithoedd, ac mae'n anodd eu symud. Dwi ddim yn gwybod a fydd yn rhan o'r trafodaethau, ond allwn ni eu gwneud yn ddewisol? <p>Pwyntiau a godwyd o blaid y Syniad:</p> <ul style="list-style-type: none">• Bobl sydd ddim yn cymryd rhan yn BUCS ar ddydd Mercher, does dim byd yn eich atal rhag dysgu, mynd i'r llyfrgell, ysgrifennu eich traethodau. Rydyn ni yma i wneud mwy na dysgu, mae gwersi ar y cae'r un mor werthfawr.• Dwi'n academiaidd iawn, ond dwi dal yn gallu gweld manteision cael dydd Mercher yn rhydd. Mae adrannau'n cynnal gweithdai opsiynol, a byddai mwy o amser i wneud pethau academiaidd heb fynychu. Byddai eu gwneud yn opsiynol yn lleihau'r amser cyswllt, felly dylid eu gweithredu'n araf yn yr holl adrannau gyda llai o oriau



		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cymdeithasau'n manteisio ar ddydd Mercher ar gyfer ymarferion ac ati felly maen nhw'n elwa hefyd. Byddai gweithredu un adran ar ôl y llall yn gweithio • Dwi'n llwyr o blaid, roedd cymryd rhan yn BUCS yn anhygoel. Cyfarfyddais i â phobl wahanol o'r DU, ac mae'n wych yn gymdeithasol ac i'ch iechyd. Rydyn ni'n cynrychioli'r brifysgol, a byddai cael cydnabyddiaeth yn gwella enw da'r brifysgol. Bydd hyn yn denu darpar fyfyrwr.
	Pleidlais	PASIWYD
7	Cerddoriaeth Gymreig yn yr Undeb (Gwion Llwyd)	
	Pleidlais	PASIODD
5. Unrhyw fusnes arall	<p>Rhoddwyd cyfle i bawb a oedd yn bresennol i godi unrhyw fater na chafodd ei drafod eisoes, neu i roi gwybod i bobl am unrhyw beth mawr a oedd yn digwydd yr wythnos honno.</p> <p>Atgoffodd y Cadeirydd bawb fod y cyfnod sefyll yn Etholiadau UMAber, gan gynnwys ar gyfer ei olynnydd fel y Cadeirydd nesaf, yn gorffen am hanner nos.</p>	
6. Cofiwch y Dyddiad!	Cyfarfod nesaf y Cyngor: 30 Ebrill; dyddiad cau ar gyfer syniadau 16 Ebrill	